

Sut y gall Cyngor Sir Fynwy helpu?

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gwybod am y problemau y gall llifogydd eu hachosi ac yn ceisio sicrhau fod trefniadau digonol yn eu lle i dderbyn rhybuddion llifogydd, i fonitro amodau lleol ac ymateb i geisiadau am help gan y gymuned.

Cyn llifogydd, yr ydym yn:

- Paratoi am lifogydd posibl drwy gynllunio, hyfforddiant ac ymarferion;
- Sicrhau fod system ymateb 24 awr yn ei lle;
- Monitro lleoliadau bregus;
- Ymgynghori gyda'r gymuned mewn ardaloedd allweddol agored i lifogydd.

Yn ystod llifogydd, yr ydym yn:

- Cydlynu gyda phob asiantaeth/sefydliadau cysylltiedig;
- Rhoi ein gweithlu ar waith i ymateb i anghenion y gymuned;
- Dosbarthu sachau tywod ar gais Gweithrediadau Cyngor Sir Fynwy;
- Cynnig llety dros dro i deuluoedd y mae llifogydd yn effeithio arnynt os oes angen drwy Adran Tai Cyngor Sir Fynwy.

Ar ôl llifogydd, yr ydym yn:

- Cynnig cyngor ychwanegol ar ddiogelwch bwyd a chyngor gwasanaeth cyhoeddus arall: Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Fynwy;
- Clirio priffyrdd cyhoeddus a thir cyhoeddus yr effeithiwyd arno: Adran Priffyrdd/Gwasanaethau Gwastraff a Stryd Cyngor Sir Fynwy;
- Darparu sgipiau a chasgliadau sbwriel ychwanegol ar gyfer symud eiddo o dai lle bu llifogydd: Adran Glanhau a Gwastraff Cyngor Sir Fynwy;
- Eich cynorthwyo i ganfod rhywle i fyw os nad oes gennyh yswiriant: Adran Tai Cyngor Sir Fynwy;
- Eich cynorthwyo i ganfod crefftwyr gydag enw da drwy gynllun TrustMark: Adran Safonau Masnach Cyngor Sir Fynwy;
- Os yw'r llifogydd wedi effeithio ar nifer fawr o adeiladau, bydd y cyngor yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu cyfleusterau canolog i gynorthwyo pawb yr effeithiwyd arnynt. Cyhoeddir trefniadau o'r fath ar y pryd.

Cysylltu â Chyngor Sir Fynwy — gweler 'Rhifau Cyswllt Defnyddiol' a gofyn am yr adran berthnasol o'r Cyngor neu ymwelwch â'ch Hyb Cymunedol lleol.

Rhifau Cyswllt Defnyddiol

Argyfyngau	999
Pob Adran o'r Cyngor drwy: Cyngor Sir Fynwy	01633 644644
Heddlue Gwent	01633 838111
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	01443 232000
Argyfyngau Nwy	0800 111 999
Rhif Argyfwng Toriad Pŵer	105
Argyfyngau Dŵr	0800 052 0130
Argyfyngau Carthffosiaeth	0800 085 3968
Cymdeithas Yswirwyr Prydain	020 7600 3333

Mwy o wybodaeth

Fforwm Genedlaethol Llifogydd

☎ 01299 403055

🌐 www.floodforum.org.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru

☎ 0300 065 3000

🌐 www.cyfoethnaturiol.cymru

Cyngor ar Bopeth

☎ Gweler y llyfr ffôn lleol

🌐 www.citizensadvice.org.uk

Cymdeithas Brydeinig Rheoli Difrod

☎ 01858 414278

🌐 www.bdma.org.uk

Iechyd Cyhoeddus Cymru

☎ 02920 227744

Os hoffech gael y daflen hon mewn iaith arall, braille, print bras neu yn electronig, cysylltwch â Thîm Cynllunio Argyfwng Sir Fynwy ar 01633 644091/2.



A YW EICH CARTREF MEWN RISG O LIFOGYDD



**MAE'R DAFLEN HON AR GYFER
PRESWYLWYR SIR FYNWY Y MAE EU
CARTREFI MEWN RISG O LIFOGYDD**

A WYF MEWN RISG O LIFOGYDD?

Mae llifogydd yn digwydd am lawer o resymau:

- Glwiad trwm parhaus yn effeithio ar lefelau afonydd
- Llanw uchel yn gorlifo dros lannau afonydd ac amddiffynfeydd
- Cwlfertau wedi blocio
- Draeniau gorlawn



GWEITHREDWCH NAWR

1. Gwirio risg llifogydd i'ch eiddo drwy fynd i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn www.cyfoethnaturiol.cymru
2. Rhoi eich enw am rybuddion llifogydd **AM DDIM** drwy ffonio Rhybuddion Llifogydd ar 0345 988 1188.
3. Gwirio manylion eich polisi yswiriant ac ychwanegu gorchudd os oes angen.

PARATOI AR GYFER LLIFOGYDD

- Gwybod sut i droi eich cyflenwadau nwy, trydan a dŵr i ffwrdd.
- Cadw rhestr o rifau defnyddiol – yn cynnwys eich manylion yswiriant a rhif polisi.
- Paratoi pecyn argyfwng – gweler ochr arall y dudalen.
- Meddwl pa eitemau o werth personol y gallwch eu symud yn awr – e.e. llyfrau ffotograffau, dogfennau pwysig ac yn y blaen.
- Meddwl beth fydddech eisiau ei symud i ddiogelwch yn ystod llifogydd.
- Ystyried offer dros dro diogelu rhag llifogydd, e.e. clwydi llifogydd, gorchuddion plastig i selio briciau aer, sachau tywod, byrddau llifogydd

OS RHAGWELIR LLIFOGYDD

- Gwrando am rybuddion ar radio a theledu am dywydd difrifol am lifogydd sydyn a ffonio Rhybuddion Llifogydd ar 0345 988 1188 ar gyfer llifogydd afonydd.
- Symud anifeiliaid anwes, cerbydau, eitemau gwerthfawr ac o werth sentimental a dogfennau pwysig i fan diogel.
- Paratoi eich cyflenwad o sachau tywod. Gall Cyngor Sir Fynwy ddarparu sachau tywod mewn argyfwng er y gallech ddewis cadw eich cyflenwad eich hun.
- Rhoi gwybod i Ganolfan Cyswllt Cyngor Sir Fynwy am unrhyw broblemau difrifol gyda draeniau e.e. rhwystrau mewn ffosydd neu gwlfertau, neu ddŵr yn sefyll heb ddraenio'n iawn.
- Gwefru eich ffôn symudol.



PARATOI PECYN ARGYFWNG

- ✓ Dogfennau yswiriant,
- ✓ Rhifau ffôn pwysig,
- ✓ Fflachlamp a batris ychwanegol,
- ✓ Radio gludadwy,
- ✓ Ffôn symudol,
- ✓ Pecyn cymorth cyntaf gyda meddyginiaeth hanfodol,
- ✓ Potel ddŵr,
- ✓ Eitemau bwyd na aiff yn ofer,
- ✓ Blancedi, dillad twym,
- ✓ Bag pethau ymolchi ac eitemau hanfodol,
- ✓ Hanfodion plant – laeth, bwyd baban, cewynnau ac yn y blaen,
- ✓ Arian argyfwng,
- ✓ Camera i gofnodi difrod ar gyfer dibenion yswiriant,
- ✓ Eitemau ychwanegol – esgidiau wellington, menig rwber, dillad dal dŵr ac yn y blaen.

YN YSTOD LLIFOGYDD

- Symud eich teulu ac anifeiliaid anwes i'r llawr cyntaf.
- Gwirio fod aelodau absennol o'ch cartref yn ddiogel.
- Dal i wrando ar radio lleol/teledu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.
- Aros yn eich cartref os yw'n ddiogel gwneud hynny nes bydd gwasanaethau argyfwng yn dweud yn wahanol wrthyhch neu fod y llifogydd yn cilio.
- Peidio cerdded na gyrru drwy ddŵr yn llifo.
- Osgoi cysylltu gyda dŵr llifogydd a golchi eich dwylo yn ofalus os ydych yn ei gyffwrdd.



OS YW'N RHAID I CHI WAGU EICH CARTREF

- Bydd y Gwasanaethau Argyfwng yn dweud wrthyhch os oes angen i chi adael eich cartref er eich diogelwch eich hun. Dilynwch eu cyfarwyddiadau'n ofalus.
- Caiff llety argyfwng ei ddarparu i chi mewn canolfan orffwys nes caniateir i chi ddychwelyd gartref.
- Darperir cludiant hefyd os oes angen.
- Gadael i'r heddlu wybod os penderfynwch fynd i aros gyda pherthnasau neu ffrindiau fel y gellir cyfrif amdanoch
- Os oes amser:
 - * Trowch y cyflenwad trydan, nwy a dŵr i ffwrdd,
 - * Dadblygio offer trydanol,
 - * Cloi pob drws a ffenestr,
- Mynd â moddion hanfodol gyda chi
- Peidio â dychwelyd gartref nes dywedir wrthyhch pan mae'n ddiogel gwneud hynny.

MAE GAN GYNGOR SIR FYNWY DAFLEN AR WAHÂN AR GYFER PRESWYLLWYR Y MAE LLIFOGYDD WEDI EFFEITHIO ARNYNT – CYSYLLT WCH Â'R ADRAN DRAENIAD TIR, DRWY GANOLFAN CYSWLLT CYNGOR SIR FYNWY, I GAEL COPI.